# WILLIAMS, ROBERT DEWI (1870 - 1955), gweinidog (MC), prifathro Ysgol Clynnog a llenor

**Enw:** Robert Dewi Williams
**Dyddiad geni:** 1870
**Dyddiad marw:** 1955
**Priod:** Helena Jones Williams (née Davies)
**Rhiant:** Elizabeth Williams
**Rhiant:** Isaac Williams
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog (MC), prifathro Ysgol Clynnog a llenor
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Addysg; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Ganwyd 29 Rhagfyr 1870 yn Llwyn-du Isaf, Pandytudur, Sir Ddinbych, mab Isaac ac Elizabeth Williams. Bu'n ddisgybl yn ysgol Frytanaidd ei fro (Ysgol Blaenau Llangernyw, neu Ysgol y Pandy), cafodd ddeufis o addysg yn ysgol ramadeg ei gâr, Robert Roberts ('Y Sgolor Mawr '; 1834 - 1885), yn Llanfair Talhaearn; bu mewn ysgol yn Llandudno ar ôl hynny, ac yn ysgol baratoawl y Bala - yno y dechreuodd bregethu. Bu am ysbaid yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth, ac yna cafodd bedair blynedd o gwrs anrhydedd yng Ngholeg Iesu, Rhydychen (lle graddiodd). Ordeiniwyd ef yn 1900, a bu'n gweinidogaethu yng Nghesarea, Llandwrog, Arfon (1898-1904) ac yn Jerusalem, Penmaen-mawr (1904-17). Penodwyd ef, yn 1917, yn brifathro Ysgol Clynnog, a pharhaodd yn y swydd ar ôl symud yr ysgol i Goleg Clwyd, Y Rhyl; yno y bu hyd nes iddo ymddeol yn 1939. Bu'n byw yn Rhuddlan ym mlynyddoedd olaf ei oes. Perchid ef yn fawr gan ei fyfyrwyr. Y mae'n amlwg ei fod yn athro campus oherwydd ei wybodaeth o'r clasuron a phynciau eraill; hyfforddodd ddegau o fechgyn - rhai ohonynt yn ddigon anaddawol - oedd â'u bryd ar y weinidogaeth. Yr oedd ef ei hun yn bregethwr cymeradwy iawn, a chofid yn hir am ei gyffelybiaethau byw a bachog. Dyrchafwyd ef i gadair Sasiwn y Gogledd yn 1950. Yr oedd yn llenor gloyw hefyd, a chanddo reddf at rin geiriau ac ymadroddion. Cyhoeddwyd ei stori-fer hir, ' Y Clawdd terfyn ', yn rhifyn cyntaf *Y Beirniad*, a'i chyhoeddi ar ôl hynny yn *Clawdd Terfyn, straeon a darluniadau* yn 1912 (ail arg. 1948); fe'i cyfrifir ef yn arloesydd y math yna o stori yn y Gymraeg. Ysgrifennodd hefyd i'r cylchgronau, a chasglwyd rhai o'i ysgrifau o'r *Drysorfa* dan y teitl *Dyddiau mawr mebyd* yn 1973. Priododd 1908 Helena Jones Davies, a ganwyd un mab o'r briodas. Bu farw 25 Ionawr 1955 yn Rhuddlan.

## Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts**, (1904 - 1993)

## Ffynonellau


*Blwyddiadur y Methodistiaid Calfinaidd*, 1956, 265

*Y Goleuad*, 9 a 16 Chwefror 1955

*Y Drysorfa*, 1950, 59-62

W. Morris (gol.), *Ysgolion a cholegau y Methodistiaid Calfinaidd, y rhai a gaewyd* (Caernarfon 1973) (1973), 61ff.

gwybodaeth gan Alford Pritchard, Pandytudur

[ W. J. Edwards, *Cerdded y clawdd terfyn cofiant R. Dewi Williams* (Dinbych 1992) (1992)]


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Robert Dewi Williams

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 58855792

Wikidata: Q7343516


**Dyddiad cyhoeddi:** 1997



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a

Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu